**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Adroddiad Fforwm y Cadeiryddion Pwyllgor: Etifeddiaeth Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

9 Tachwedd 2015


Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Adroddiad Fforwm y Cadeiryddion Pwyllgor: Etifeddiaeth Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

9 Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cylch gwaith y Pwyllgor:

Mae Fforwm y Cadeiryddion yn cynnwys Cadeirydd pob Pwyllgor yn y Cynulliad, ar wahân i'r Pwyllgor Busnes. Y Dirprwy Lywydd sy'n cadeirio.

**Aelodau'r Pwyllgor:**



**David Melding (Cadeirydd)**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Christine Chapman**
**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**William Graham**
**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Alun Ffred Jones**
**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
Plaid Cymru
Arfon



**William Powell**
**Y Pwyllgor Deisebau**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**David Rees**
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
Llafur Cymru
Aberafan



**Mick Antoniw**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Jocelyn Davies**
**Y Pwyllgor Cyllid**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Ann Jones**
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Darren Millar**
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd

# Cynnwys


**Rhagair** ..... 1

**Fframwaith y drafodaeth** ..... 2

- Maint y pwyllgorau ..... 3
- Pwyllgorau â swyddogaeth ddeuol ..... 3
- Craffu ar faterion Ewropeaidd ..... 4
- Amserlen Pwyllgorau ..... 6
- Rôl ac annibyniaeth Cadeiryddion ..... 7
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus ..... 7
- Fforwm y Cadeiryddion ..... 8
- Ymgysylltu ..... 10
- Adnoddau ..... 11
- Effaith ..... 11

**Atodiad A: Cerrig Milltir Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad** ..... 13

**Atodiad B: Gweithgarwch Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad** ..... 15

**Atodiad C: Rôl a chyfrifoldebau Cadeiryddion yn y Pedwerydd Cynulliad** ..... 16

**Atodiad D: Ethol Cadeiryddion pwyllgor mewn deddfwrfeydd eraill** ..... 17

# Rhagair

Cyfarfu Cadeiryddion y Pwyllgorau ar 24 Medi a 20 Hydref 2015 er mwyn bwrw golwg strategol a gonest dros y system pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad a gwneud argymhellion ar gyfer gwella ar berfformiad yn y Pumed Cynulliad.

Mae'r adroddiad hwn at y Llywydd yn nodi'r prif gasgliadau ar strwythurau, prosesau a pherfformiad y pwyllgorau. Nod yr adroddiad yw bod yn sail i waith etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Cynulliad ac mae'n rhoi trosolwg strategol ar adroddiadau etifeddiaeth y pwyllgorau unigol, a gaiff eu cyhoeddi yn nhymor y gwanwyn.

Wrth lunio ein barn, fe gadwyd mewn cof y dulliau a ddefnyddir mewn deddfwrfeydd eraill i werthuso pwyllgorau, gan gynnwys adroddiad yr *Institute for Government* ar **effeithiolrwydd pwyllgorau dethol**, y ffocws newydd ar effaith a chanlyniadau pwyllgorau a'r **ymchwiliad i ddiwygio pwyllgorau** gan Bwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban.

Fel Cadeiryddion sy'n cael tâl yn y Cynulliad hwn, rydym am gyflawni'r cyfrifoldebau a roddwyd arnom gan y Pwyllgor Busnes a rhoi barn annibynnol ac awdurdodol ar sut y gallai pwyllgorau fod yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Credwn y bydd ein hetifeddiaeth ar gyfer pwyllgorau'r Pumed Cynulliad yn helpu i ymgorffori'r arfer da a ddatblygwyd yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae ein hargymhellion yn rhai cryf, beiddgar a blaengar ac maent yn cyd-fynd a **gweledigaeth y Comisiwn** ar gyfer system pwyllgorau o safon fyd-eang. Rydym yn ddiolchgar i'r Llywydd am roi'r cyfle hwn inni gyhoeddi ein barn a hyderwn y bydd yn cael ystyriaeth ddifrifol gan y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar wedd y pwyllgorau yn y Cynulliad nesaf.

# Fframwaith y drafodaeth

Gweledigaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer pwyllgorau:

*Dylent wella yn amlwg ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant y Llywodraeth ar gyfer y gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.*

Rydym yn cymeradwyo'r weledigaeth hon yn llwyr. Roedd ein trafodaethau'n seiliedig ar y 10 maen prawf a osododd y Comisiwn ar gyfer pwyllgorau sy'n perfformio'n dda, ac rydym wedi dod i gasgliadau ac wedi gwneud argymhellion ar bob un ohonynt.

**Meini prawf ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf**

01. Craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolio yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau.

02. Cytuno ar gynllun clir a strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau.

03. Bod yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt.

04. Dilyn arweiniad y Cadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodwyd arnynt gan y Cynulliad.

05. Ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, cael eu hystyried gan grwpiau o randdeiliaid fel chwaraewyr pwysig, dylanwadol ac fel y lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da cyhoeddus y Cynulliad. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang ag y bo modd.

06. Sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad.

07. Ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt.

08. Gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad.

09. Byddant yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu dadansoddiad a gwerth eu gwelliant deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi ffurfio ei chynlluniau polisi, gwario a deddfwriaethol.

10. Byddant yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw hyd braich a'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol.

**Meini prawf ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf**

01. Craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolio yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau.

## Maint y pwyllgorau

– Mae'r pwyllgorau wedi gwneud gwaith ardderchog yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae Atodiad A yn rhestru rhai o gerrig milltir allweddol y pwyllgorau ac mae Atodiad B yn nodi mwy o uchafbwyntiau ar ffurf Inffograffeg.

– Nid yw cael pwyllgorau â 10 Aelod yn broblem ynddo'i hun, ond mae'n anghymesur â maint y Cynulliad a nifer yr Aelodau meinciau cefn sydd ar gael ar hyn o bryd i eistedd ar bwyllgorau (42 Aelod i lenwi 85 lle pwyllgor).

– Mae cyfrifoldeb ar rai Aelodau i eistedd ar sawl pwyllgor, sy'n creu llwyth gwaith sylweddol. Ni fydd hynny'n gynaliadwy yn y Pumed Cynulliad, yn enwedig o ystyried y cynnydd arfaethedig ym mhwerau'r Cynulliad.

– Mae cynsail ar gyfer cael pwyllgorau llai eu maint (er enghraifft, Deisebau, Safonau, a Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol) lle mae Aelodau wedi cydweithio'n effeithiol.

### Argymhelliad 1

Byddai lleihau maint y pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad yn cynyddu gallu Aelodau'n sylweddol o ran cyflawni eu dyletswyddau a byddai'n arwain at welliannau cynaliadwy yn ansawdd y gwaith craffu.

## Pwyllgorau â swyddogaeth ddeuol

– Mae cyfuno swyddogaethau'r pwyllgorau o ran craffu ar bolisi â chraffu ar ddeddfwriaeth wedi bod yn effeithiol o ran adeiladu ar wybodaeth ac arbenigedd Aelodau yn eu meysydd, ac mae wedi arwain at well gwaith craffu ar ddeddfwriaeth.

– Fodd bynnag, mae llwyth gwaith deddfwriaethol rhai o'r pwyllgorau wedi achosi gostyngiad sylweddol yn yr amser sydd ar gael iddynt i graffu ar bolisi yn y meysydd hynny. Mae'r llwyth gwaith hwnnw'n cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru ac felly, i raddau helaeth, mae y tu hwnt i'n rheolaeth.

– Mae sefydlu a gweithredu is-bwyllgorau wedi tueddu i fod yn feichus ac yn aneffeithiol: dylai deddfwriaeth fod yn destun gwaith craffu gan y pwyllgor cyfan bob tro.

– Rydym yn edrych ymlaen at adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a fydd yn adolygiad trawsbleidiol o'r broses ddeddfu gyfredol, a'i argymhellion ar gyfer gwella'r system yn y Pumed Cynulliad.

### Argymhelliad 2

Annog Llywodraeth Cymru i drefnu'r amserlen ddeddfwriaeth fel na fyddai sawl Bil yn cyrraedd pwyllgor ar yr un pryd.

### Argymhelliad 3

Gallai pwyllgorau fod yn fwy pendant wrth sicrhau bod deddfwriaeth yn "addas i'r diben" drwy anfon Biliau yn ôl at Lywodraeth Cymru os nad oes digon o feddwl y tu cefn iddynt neu os yw'n amlwg nad ydynt yn barod.

### Argymhelliad 4

Pe bai pwyllgorau'n teilwra eu dull o drin deddfwriaeth, byddent yn gallu treulio llai o amser ar faterion bach annadleuol, a chanolbwyntio mwy ar ddeddfwriaeth sy'n ddadleuol a / neu'n arwyddocaol.

### Argymhelliad 5

Gellid defnyddio pwyllgorau deddfwriaethol ad hoc penodol i graffu ar ddarnau mawr a sylweddol o ddeddfwriaeth ar ran y Cynulliad cyfan, neu i reoli tagfeydd yn y system. Byddai hynny'n cynyddu hyblygrwydd a gallu yn y Pumed Cynulliad.

## Craffu ar faterion Ewropeaidd

– Mae buddiannau i brif ffrydio gwaith Ewropeaidd, ond mae rhai pwyllgorau wedi cael y siâr fwyaf o'r gwaith hwn, felly byddai o fudd cael trosolwg cyffredinol (gweler Argymhelliad 13 isod).

– Mae ymweliadau Pwyllgorau ledled Cymru, i rannau eraill o'r DU ac i sefydliadau'r UE wedi bod yn hynod werthfawr ac wedi galluogi pwyllgorau i weithredu yn fwy annibynnol.

– Fodd bynnag, ar adegau mae gwleidyddiaeth plaid wedi ymyrryd â chydweithio trawsbleidiol drwy rwystro ymweliadau a gweithgareddau eraill y pwyllgorau y tu hwnt i'r Senedd.

### Argymhelliad 6

Dylid ei gwneud yn ofynnol bod pleidiau gwleidyddol yn sefydlu dull mwy hyblyg a chydweithredol o gyflawni cydbwysedd mewn pwyllgorau ar gyfer ymweliadau, am y byddai hynny o fudd o ran gallu'r Cynulliad i gasglu tystiolaeth ac i graffu, ar bolisi ac ar ddeddfwriaeth yr UE yn benodol.




SAVE OUR
ARITY SHOPS!



**Meini prawf ar gyfer pwyllgorau o’r radd flaenaf**

02. Cytuno ar gynllun clir a strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau.

03. Bod yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt.

## Amserlen Pwyllgorau

– Gan fod amserlen a llwyth gwaith pwyllgorau mor drwm, mae'n bwysig iddynt nodi eu blaenoriaethau er mwyn buddsoddi eu hamser a'u hadnoddau yn fwy effeithiol.

– Nid yw cynnal y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar brynhawn Llun yn cyd-fynd â gweddill yr amserlen fusnes, fel y mae ar hyn o bryd. Mae cael cworwm yn dibynnu'n aml ar ymroddiad yr Aelodau a'u hymrwymiad i anfon dirprwyon pan na allant fod yn bresennol.

– Mae cynnal cyfarfodydd pwyllgor ar fore Mawrth (er enghraifft, y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) hefyd yn peri problemau am fod ymrwymiadau eraill yr Aelodau'n cyfyngu ar eu gallu i fod yn bresennol, ynghyd â'r ffaith bod yr amser sydd ar gael ar gyfer y cyfarfodydd pwyllgor yn gyfyng. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r unig bwyllgor sy'n ofynnol yn ôl statud, felly dylai gael yr un statws â'r prif bwyllgorau yn amserlen y pwyllgorau.

– Mae'r Cynulliad yn sefydliad gwahanol iawn o'i gymharu â 15 mlynedd yn ôl; mae'r cyhoedd yn disgwyl, ac fe ddylai Aelodau dderbyn, patrwm gwaith gwahanol yn y Pumed Cynulliad, sef un sy'n cyd-fynd â chyflogau ac amodau gwell yr Aelodau.

### Argymhelliad 7

Dylid edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu capasiti pwyllgorau. Gallai hynny gynnwys ymestyn yr wythnos fusnes ffurfiol i bedwar diwrnod er mwyn cynnwys prynhawn Llun, ymestyn tymhorau'r Cynulliad a chylchdroi amserlen y pwyllgorau.

### Argymhelliad 8

Byddai adolygu'r patrwm a'r cydbwysedd rhwng yr amser ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau yn gwella ansawdd a chynhyrchiant yn y Cyfarfod Llawn ac yn gwneud amserlenni pwyllgor yn llai trwm.

**Meini prawf ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf**

04. Dilyn arweiniad y Cadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodwyd arnynt gan y Cynulliad.

## Rôl ac annibyniaeth Cadeiryddion

– Mae'r disgrifiadau rôl ar gyfer Cadeiryddion a gafodd eu pennu gan y Bwrdd Taliadau a'r Pwyllgor Busnes yn ddefnyddiol a dylid eu cynnal yn y Pumed Cynulliad: maent wedi'u rhestru yn Atodiad C. Yn unol â chadeiryddion mewn sefydliadau eraill, mae disgwyl i Gadeiryddion nodi eu gweledigaeth a'r hyn y gallant ei gynnig i'r rôl.

– Mae annibyniaeth pwyllgorau a'u Cadeiryddion yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol. Yn ein barn ni, dylid cryfhau hyn yn y Pumed Cynulliad.

– Rydym yn cefnogi'r system bresennol o ddyrannu swyddi Cadeiryddion pwyllgor yn ôl cydbwysedd y pleidiau. Fodd bynnag, er mwyn i'r swyddi gael eu hystyried i fod yn annibynnol, dylid mynd â'r cyfrifoldeb am benodi a diswyddo Cadeiryddion pwyllgorau oddi ar y grwpiau gwleidyddol.

– Rydym yn cydnabod y byddai angen archwilio'r broses, ond rydym yn cytuno â'r egwyddor o ethol Cadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad. Mae Atodiad D yn amlinellu'r gweithdrefnau mewn deddfwrfeydd eraill.

### Argymhelliad 9

Byddai proses newydd ar gyfer ethol Cadeiryddion pwyllgorau yn cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd pwyllgorau. Byddai sicrhau na all Cadeiryddion pwyllgorau gael eu diswyddo gan bleidiau gwleidyddol hefyd yn anfon neges glir mai craffu yw blaenoriaeth y Cynulliad newydd.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

– Mae'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) wedi bod yn werthfawr iawn i Gadeiryddion ac Aelodau, gan ddarparu safbwyntiau a thechnegau newydd. Mae ansawdd yr hyfforddwyr sy'n cyflwyno'r rhaglen hefyd wedi creu argraff arnom.

– Mae rhaglen DPP clir ar gyfer Cadeiryddion ac Aelodau yn hanfodol ar gyfer ein datblygiad proffesiynol yn y Cynulliad nesaf, fel sy'n addas i unrhyw swydd sydd â'r un lefel o gyfrifoldeb a chyflog.

– Mae ymweliadau a'r cyfarfodydd pwyllgorau y tu allan i'r Cynulliad wedi bod yn amhrisiadwy yn y Pedwerydd Cynulliad o ran galluogi pwyllgorau i ddod yn agosach a chodi proffil cyhoeddus pwyllgorau.

– Mae rhai pwyllgorau wedi trafod y ffordd o weithio a ffafrir ganddynt a'r dull o gwestiynu a ffafrir ganddynt, ac mae hyn wedi helpu'r pwyllgor i graffu'n fwy effeithiol.

### Argymhelliad 10

Dylid disgwyl i bob Cadeirydd pwyllgor gymryd rhan mewn DPP yn y Pumed Cynulliad a dylid "normaleiddio" DPP ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad.

### Argymhelliad 11

Gall y bydd y Pwyllgor Busnes am ystyried dull gwahanol ar gyfer rhaglennu busnes y Cyfarfod Llawn er mwyn rhoi amser DPP i Gadeiryddion ac Aelodau. Byddai gwneud cydymffurfiaeth Aelodau â DPP yn fater cyhoeddus yn anfon neges gryfach fyth am ein hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

### Argymhelliad 12

Byddai defnyddio'r sesiynau pwyllgor cyntaf yn y Pumed Cynulliad ar gyfer meithrin tîm yn gyfle i Gadeiryddion osod cyfeiriad a blaenoriaethau strategol a byddai'n caniatáu i Aelodau gytuno ar ffyrdd o weithio fel tîm effeithiol.

## Fforwm y Cadeiryddion

### Argymhelliad 13

Byddai'n werthfawr cael cyfarfodydd achlysurol o Fforwm y Cadeiryddion i drafod materion sydd o bwys strategol i bwyllgorau, fel trosolwg ar faterion yr UE a rhannu arfer gorau.


Sarah Thomas
Cenedlaethol Sefydliad y
Merched
Federation of Women's
Institutes


Claire Morris



**Meini prawf ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf**

05. Ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, cael eu hystyried gan grwpiau o randdeiliaid fel chwaraewyr pwysig, dylanwadol ac fel y lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da cyhoeddus y Cynulliad. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang ag y bo modd.

06. Sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad.

## Ymgysylltu

- Gwnaed camau mawr yn y Pedwerydd Cynulliad o ran ein gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd: mae wedi gwella ein dealltwriaeth o safbwyntiau rhanddeiliaid ac rydym wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol. Rydym yn rhoi teyrnged i waith aruthrol ein tîm Allgymorth.
- Roedd y trafodaethau bord gron a'r grwpiau ffocws yn wych o ran rhoi cipolwg ar faterion i bwyllgorau. Mae'r cysylltiadau hynny wedi cael eu datblygu wrth inni ddychwelyd i lansio adroddiadau ar ddiwedd ymholiadau. Mae'n bwysig bod pwyllgorau'r Pumed Cynulliad yn datblygu'r arfer da sydd wedi'i gyflawni a bod mwy o Aelodau'n mynd i ddigwyddiadau allgymorth.

### Argymhelliad 14

Hoffem weld pwyllgorau yn parhau i ehangu cylch y bobl sy'n cyfrannu i gynnwys mwy na'r 'bobl arferol' a hoffem eu gweld yn ymgysylltu â thystion yn anffurfiol pan fydd bylchau yn y dystiolaeth, yn enwedig gyda'r sefydliadau a allai fod yn amharod i siarad â ni oherwydd eu bod yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru.

**Meini prawf ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf**

07. Ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt.

08. Gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad.

09. Byddant yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu dadansoddiad a gwerth eu gwelliant deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi ffurfio ei chynlluniau polisi, gwario a deddfwriaethol.

10. Byddant yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw hyd braich a'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol.

## Adnoddau

– Rydym yn gwerthfawrogi ansawdd uchel yr ymchwil, y gefnogaeth a'r wybodaeth y mae pwyllgorau'n eu cael gan staff y Cynulliad. Rydym wedi cael adborth tebyg gan dystion am y gefnogaeth o'r radd flaenaf i bwyllgorau.

– Mae lle i wella bob amser ac, yn y Pumed Cynulliad, hoffem weld materion yn cael eu dadansoddi'n ddyfnach ac awgrymiadau ar gyfer cwestiynau llai amlwg.

– Rydym wedi elwa'n fawr ar ddefnyddio ymgynghorwyr a phaneli arbenigol i'n helpu i fireinio ein cwestiynau a gwneud ein hymholiadau'n fwy 'soffistigedig'.

## Effaith

– Mae'r cyfle i graffu ar ôl deddfu wedi bod yn ardderchog, er mai dim ond hyn a hyn o gyfleoedd a gafwyd i wneud hynny.

– Er mwyn i'n hadroddiadau gael mwy o effaith, fe ddylent gael mwy o ffocws, fod yn fwy bachog a bod yn fwy cryno.

– Rydym yn sylweddoli y bydd dyfnder ein gwaith craffu hefyd yn dibynnu ar faint pwyllgorau, ar yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer holi tystion, ac ar barodrwydd Aelodau i fod yn llai petrus wrth graffu ar Lywodraeth Cymru.

– Mae rhai pwyllgorau wedi cael trafferth trefnu sesiynau craffu gyda Gweinidogion. Rydym hefyd wedi cael trafferth o ran cael tystiolaeth ar y cofnod cyhoeddus pan fydd sefydliad y tystion yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru.

– Gallai argymhellion Pwyllgorau herio Llywodraeth Cymru yn fwy. Byddai mwy o annibyniaeth i bwyllgorau yn y Pumed Cynulliad yn helpu gyda hynny.

– Mae craffu dilynol yn hanfodol a dylid gwneud mwy ohono fel mater o drefn yn y Pumed Cynulliad. Mae'n helpu o ran dwyn y Llywodraeth i gyfrif, ac mae'n dangos ymrwymiad i'n rhanddeiliaid.

## Argymhelliad 15

Gallai pwyllgorau wneud mwy o ddefnydd o arbenigedd allanol annibynnol, lle bo'n briodol.

## Argymhelliad 16

Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, byddai'n ddefnyddiol pe bai pob pwyllgor yn adolygu'r argymhellion a nodwyd yn adroddiadau etifeddiaeth ei ragflaenydd. Dylai craffu dilynol, gan gynnwys craffu ar ôl deddfu, fod yn rhan arferol o flaenraglenni gwaith pwyllgorau.

# Atodiad A: Cerrig Milltir Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

## Mehefin 2011

Sefydlu'r Pwyllgorau: swyddogaethau polisi a deddfwriaeth yn cael eu cyfuno am y tro cyntaf a materion Ewropeaidd yn cael eu prif ffrydio

## Gorffennaf 2011

Y Bwrdd Taliadau a'r Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi disgrifiadau rôl ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau

## Tachwedd 2011

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal sgwrs ar y we gyntaf y Cynulliad fel rhan o'i ymchwiliad i Ddyfodol y Cyfryngau yng Nghymru

## Mai 2012

Sefydlu'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf erioed yng ngogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2013

## Mehefin 2012

Newid y rheolau i alluogi tystion i gyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau drwy fideo, delweddau neu ddeunydd aml-gyfrwng

## Tachwedd 2012

Deddf gyntaf y Cynulliad (Ieithoedd Swyddogol) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, ar ôl cael ei gyflwyno gan y Comisiwn ac ar ôl gwaith craffu gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Y Pwyllgor Menter a Busnes yw'r cyntaf i drefnu digwyddiad Caffi'r Byd ar gyfer ei ymchwiliad i Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig

## Rhagfyr 2012

Comisiwn y Cynulliad yn cychwyn adolygiad o'r gefnogaeth i bwyllgorau

## Chwefror 2013

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r cyntaf i ddefnyddio Storify ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## Mai 2013

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r cyntaf i drydar am ei waith

## Gorffennaf 2013

Cyfuno'r timau clercio polisi a chlercio deddfwriaeth ar gyfer pob pwyllgor

## Hydref 2013

Dirprwyo goruchwyliaeth dros Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r Pwyllgor Cyllid

## Rhagfyr 2013

Y Comisiwn yn cyhoeddi ei adolygiad o'r gefnogaeth i bwyllgorau: yr uchelgais yw bod pwyllgorau'r Cynulliad o 'safon fyd-eang'

Y Pwyllgor Menter a Busnes yw'r cyntaf i lansio adroddiad ar drên - ac yn Lloegr (yng ngorsaf Henffordd) - ar gyfer ei ymchwiliad i Fasnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

## Mawrth 2014

Mewn partneriaeth â Chwarae Teg, clercod y pwyllgorau'n cynnal rhaglen arloesol i annog mwy o fenywod i roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad

## Mehefin 2014

Y Pwyllgor Menter a Busnes yw'r cyntaf i ddefnyddio Tagboard Twitter ar gyfer ei ymchwiliad i Dwristiaeth

## Gorffennaf 2014

Lansio'r Siarter Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

## Hydref 2014

Alun Ffred Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, yw'r Cadeirydd cyntaf i ysgrifennu blog - ar y Bil Cynllunio

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cael y nifer fwyaf erioed o ymatebion (3,252) i'w ymchwiliad ar Ailgylchu yng Nghymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yw'r cyntaf i gynnal digwyddiad DPP achrededig fel rhan o'i Ymchwiliad i Ddeddfu yng Nghymru

## Ionawr 2015

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yw'r cyntaf i ddefnyddio ffurflen a derbyn tystiolaeth drwy Facebook a Twitter ar gyfer ei ymchwiliad i Athrawon Cyflenwi

## Mai 2015

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r cyntaf i ddefnyddio Loomio, fforwm ar-lein, ar gyfer ei ymchwiliad i Gamddefnyddio Alcohol a Sylweddau

Y Pwyllgor Cyllid yw'r cyntaf i ddefnyddio Adobe Slate i gynhyrchu ei adroddiad 'Cipolwg ar' Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# Atodiad B: Gweithgarwch Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad

11 pwyllgor Cynulliad sy'n gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru a'i Gweinidogion i gyfrif ynghylch ei pholisïau a'i gwariant. Mae'r ffigurau isod yn cyfeirio at eu gweithgarwch ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2011 a mis Medi 2015.

HOLWYD
**2608**
TYST

TRAFODWYD
**579**
OFFERYN STATUDOL

TRAFODWYD
**2577**
PWNC

**1265**
CYFARFOD PWYLLGOR

CRAFFWYD AR
**32**
BIL

YMGYSYLLTWYD Â
**1173**
SEFYDLIAD

# Atodiad C: Rôl a chyfrifoldebau Cadeiryddion yn y Pedwerydd Cynulliad

- Pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid.
- Codi perthnasedd a dylanwad y pwyllgor i'r eithaf gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru.
- Gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor.
- Ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor.
- Sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor a meithrin consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd.
- Adeiladu'r amrywiaeth o ddiwylliant a sgiliau yn y pwyllgor sy'n angenrheidiol i'w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu.
- Sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol.
- Rhoi hwb i gyflawni pob agwedd ar waith y pwyllgor gyda chyflymder ac ansawdd.
- Cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad.
- Sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesedd yn ei waith er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd, ei ymgysylltiad cyhoeddus a'i effaith.

# Atodiad D: Ethol Cadeiryddion pwyllgor mewn deddfwrfeydd eraill

## Tŷ'r Cyffredin

Caiff Cadeiryddion Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin eu hethol drwy **bleidlais gudd** gan yr holl Aelodau, gan ddefnyddio system Pleidlais Ychwanegol. Dyma'r unig Senedd sydd wedi newid y drefn yn y ffordd hon, yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Ddiwygio Tŷ'r Cyffredin a sefydlwyd yn 2009 (diwygiadau Wright). Nododd adroddiad y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol yn 2013 gefnogaeth eang i'r farn bod ethol Aelodau a Chadeiryddion i bwyllgorau wedi bod yn bwysig o ran atgyfnerthu hygrededd, awdurdod a chyfreithlondeb pwyllgorau.

## Senedd yr Alban

Yn Senedd yr Alban mae'r Biwro Seneddol yn cynnig i'r Senedd o ba blaid y dylid dewis Cynullydd (Cadeirydd) pwyllgor, gan ystyried cydbwysedd y pleidiau gwleidyddol yn y Senedd. Yna, caiff y Cynullydd ei ddewis o blith aelodau'r pwyllgor gan y pwyllgor. Hyd yn hyn, ymgeisydd unigol sydd wedi cael ei enwebu bob tro gyda'r pwyllgor yn cytuno arno heb bleidlais.

Gofynnodd y Llywydd i Bwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban ystyried yr achos o blaid Cynullwyr pwyllgor yn cael eu hethol gan y Senedd gyfan,  ac fe gyhoeddodd ei **adroddiad** ym mis Mehefin 2015.  Nid oedd y Pwyllgor yn argyhoeddedig y byddai'r manteision a welwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn cael eu gwireddu yn Senedd yr Alban, heb orfod ystyried strwythur ac arferion y pwyllgorau'n ehangach. Mae'r Pwyllgor, felly, yng nghanol ymchwiliad i weithrediad ehangach y pwyllgorau. Ei nod yw cyhoeddi ei gasgliadau erbyn Nadolig 2015 er mwyn i'r Senedd benderfynu, cyn diwedd y sesiwn Seneddol ym mis Mawrth 2016, pa newidiadau sydd eu hangen ar gyfer y Senedd nesaf.

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

Caiff Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion eu penodi drwy broses d'Hondt. Wrth ddewis Cadeiryddion neu Ddirprwy Gadeiryddion, mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol ffafrio pwyllgorau lle nad oes ganddynt ddiddordeb pleidiol [gweinidogol] dros y pwyllgorau y mae ganddynt ddiddordeb pleidiol ynddynt.

Roedd yr **adolygiad** o'r system bwyllgorau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 gan Grŵp Adolygu Pwyllgorau Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi ystyried cyflwyno ethol cadeiryddion, ond penderfynwyd cadw'r drefn bresennol, fel rhan o'r fframwaith cydgymdeithasol.